# **Ffarwelgan** Mozart

Trefniant Helen Woods a Ruth Evans

## Gradd

Heriol

## Ynglŷn â'r gân hon

Ensemble hyfryd yw'r 'Ffarwelgan' o'r opera enwog *The Magic Flute* (*Die Zauberflöte* yn Almaeneg) gan Wolfgang Amadeus Mozart. Mae'r opera wedi ei gosod mewn byd hudolus sy'n cynnwys anghenfil, dirgelwch, yr ymbil am wir gariad ac yn olaf, goleuedigaeth. Mae'r opera yn cynnwys rhai o ariâu mwyaf enwog Mozart, gan gynnwys yr aria 'The Queen of the Night'. Ysgrifennwyd y libreto ffraeth gan Emanuel Schikaneder ac mae'n singspiel. Perfformiwyd yr opera am y tro cyntaf ym 1791 yn Awstria, cwta ddeufis cyn marwolaeth gynnar y cyfansoddwr ac mae hi ymhlith rhai o'r operâu y perfformir amlaf.

Mae'r 'Ffarwelgan' yn deillio o Act 1 yr opera. Sgwrs yw hi rhwng Tywysog Tamino, ei bartner doniol Papageno (yr heliwr adar) a'r Tair Boneddiges. Mae Tamino yn ceisio dod o hyd i'r brydferth Pamina, y mae wedi cwympo mewn cariad â hi. Mae'r Tair Boneddiges wedi rhoi ffliwt hud i Tamino sydd â'r pŵer i droi gofid yn llawenydd. Mae'r merched yn dweud wrthynt am Dri Bachgen (ysbrydion plant), a fydd yn arwain Tamino a Papageno i deml Sarastro i achub Pamina.

## Cwmpas Lleisiol

Yn gyffredinol 13eg F i D



- Llais 1 9fed C i D
- Llais 2 8fed C i C
- Llais 3 8fed F i F

## Fformat Lleisiol

3 rhan (Llais 1, 2 a 3)
Gellir perfformio'r gân fel a ganlyn:

- Llais 1 yn unig
- Llais 1 a 2 yn unig
- Llais 1, 2 a 3
- Gellir hefyd perfformio Llais 3 wythfed yn is ar gyfer lleisiau is

## Themâu/pynciau

- Opera
- Adrodd stori
- Hud/Ffantasi
- Teithiau/Treialon



## Elfennau a nodweddion cerddorol

- Cyferbyniadau o frawddegau wedi'u gwahanu a legato
- Rheoli anadl
- Galw ac ymateb

## Ymarferion CânSing ar argymhellir

- Ymarfer llais 3 (Be' sy'n well na chanu?)
- Ymarferol corff 1 (Cynhesu Chwaraeon)
- Ymarfer anadlu 1 (Anadlu)

## Rhestr Termau

Ensemble Dau neu fwy o bobl yn canu ar yr un pryd, neu'r gerddoriaeth a ysgrifennir i grŵp or fath.

Aria Cân ar gyfer llais unigol mewn opera.

Libreto Testun opera neu waith lleisiol hir arall.

Singspiel sy'n golygu 'canu-chwarae' Ffurf ar opera iaith Almaeneg gyda deialog llafar rhwng yr ariâu a'r ensembles. Mae plotiau Singspiel yn hudol, doniol neu ramantus fel arfer.

Legato Llinell lefn, felodig.

Hawlfraint © CânSing Ltd 2019


# Ffarwelgan

## Strwythur y darn


| **Adran** | **Cymeriadau** (hefyd wedi'u nodi ar y daflen eiriau) | **Rhifau Bar** (ar y sgôr) |
|---|---|---|
| **A1** | Tair Boneddiges | 4–12 |
| **A2** | Tamino a Papageno | 12–20 |
| **B1 a B2** | Pawb | 20–28 |
| **C** | Tair Boneddiges | Curiad i fyny i 29 a 29 |
| | Tamino a Papageno | Curiad i fyny i 30 a 30 |
| | Tair Boneddiges | Curiad i fyny i 31 a 31 |
| | Tamino a Papageno | Curiad i fyny i 32 a 32 |

## Dysgu'r gân

- Chwaraewch y recordiad o'r perfformiad llawn o'r 'Ffarwelgan'. Dylai dysgwyr adnabod y rhannau gwahanol (A1 ac A2, B1 a B2 a C) a chanolbwyntio arnynt. Pwy yw'r cymeriadau dan sylw ac am beth y mae'r darn yn sôn?
- Ewch yn ôl i adran A1 a gofynnwch i'r dysgwyr wrando ar rythm Llais 1 (alaw), yna clapio a llafarganu'r rhythm.
- Yn benodol cadwch lygad allan am; y curiad i fyny (hanner cwafer) cyflym ar y gair cyntaf 'Tri', y cyferbyniad rhwng adrannau wedi'u gwahanu o'r frawddeg (lle'r ydych angen seibiant rhwng y nodau) '... mab a ddaw cyn hir i'ch ...' ac adrannau legato '...tywys ac yno hyd...'.




Hefyd, clapiwch a llafarganwch y rhythm nodweddiadol ar 'llwybrau dyrys' a 'arwain draw' (rhythm dotiog sy'n nodweddu arddull Mozart).




- Ewch ymlaen i A2, gofynnwch i'r dysgwyr adnabod beth sy'n wahanol am yr adran hon o'i gymharu ag A1. Yn y stori cenir A1 gan y Tair Boneddiges (y rhoddwyr cyngor) a chenir A2 gan Tamino a Papageno (y derbynwyr cyngor). Pa eiriau sy'n newid rhwng A1 ac A2 i ddangos y gwahaniaeth hwn?
- Gwrandewch ar Lais 1 yn unig a gofynnwch i'r dysgwyr ddilyn siâp alaw adran A (ar y sgrîn a/neu batrymu traw). Pryd y mae'r nodau yn mynd i lawr, pryd y maent yn mynd i fyny a phryd y maent yn aros yr un fath?
- Byddem yn awgrymu defnyddio patrymu traw i gynrychioli'n weledol y nodau wrth addysgu. Noder: Yn y patrymu traw, osgowch symudiadau llaw sy'n uchel iawn neu'n isel iawn. Ceisiwch beidio â gorbwysleisio'r cyfyngau gan y bydd hyn yn debygol o achosi dysgwyr i roi straen ar eu lleisiau. Byddem wedyn yn argymell cadw'r seibiau patrymu traw rhwng trwyn (i'r nodyn uchaf) a bogel (i'r nodyn isaf).
- Canwch adrannau A1 ac A2 gyda Llais 1. Sicrhewch fod cantorion yn cymryd anadl da (heb godi eu hysgwyddau) a chynnal y brawddegau fel y dangoswyd gan y llais ar y trac.




Hawlfraint © CânSing Ltd 2019

# Ffarwelgan



- Pan yn hyderus, ewch ymlaen i adran B. Mae adran B1 a B2 i gyd yn legato ac mae'r adran yn gofyn am gefnogaeth dda drwy'r brawddegau hir.
- Mae'r geiriau 'hwyl' a 'fawr' yn bwysig ac fe'u defnyddir yn aml yn adran B. Sawl gwaith y maent yn ymddangos?
- Wrth addysgu adran B sicrhewch fod yna gytseiniaid cryf ar ddechrau'r geiriau '**n**awr', '**f**awr' a '**d**aw'r', a bod yna bwyslais da ar bob curiad i lawr (y nodyn cyntaf ar ôl bob llinell far).
- Mae gan B2 dri chyfyng mawr esgynnol. (F i D, 6ed) ar 'a nawr', 'Fe awn' a 'hyd nes'. Sicrhewch nad yw ansawdd y sain yn dirywio wrth i chi fynd drwy'r frawddeg. Anelwch am nodyn glir yn yr adran uchaf a pharatowch gydag anadl sy'n cynnal a chefnogi'r nodyn bob tro.
- Wrth addysgu adran C edrychwch ar Lais 1 a Llais 2 gyda'i gilydd. Mae'r adran hon yn un galw ac ymateb. Pa gymeriadau sy'n dweud 'hwyl fawr' gyntaf a phwy sydd yna'n ymateb?
- Gofynnwch i'r dysgwyr wrando ar Lais 1 ac yna ei ganu (Tair Boneddiges). Canolbwyntiwch ar yr adran gromatig ddisgynnol diddorol (C, B naturiol, Bb) yn Llais 1.




Yna gofynnwch i'r cantorion ganu adran C Llais 2 (Tamino a Papageno).

## Myfyrio a dawn gerddorol

- Mae hon yn gân am ddweud 'ffarwel'. Beth yw naws y gân hon? **Hapus, trist, gobeithiol neu nerfus.** Beth sy'n dylanwadu ar eich ateb? **Er enghraifft; y testun, cymeriadau, tonyddiaeth (mwyaf/lleiaf), tempo (cyflym/araf) a'r cyfeiliant.**
- Faint o guriadau, a sut rai, sydd ym mhob bar? **4 curiad crosiet**
- Ym mha gywair mae'r darn? **F Fwyaf**
- A oes gan y darn wead homoffonig neu wrthbwyntiol/polyffonig? **Homoffonig**
- Dewch o hyd i'r bar lle mae Llais 2 yn mynd yn uwch na Llais 1 o ran traw? **Bar 28**
- Mae tempo (cyflymder) y darn hwn yn 'Andante' (araf deg), ond dewch o hyd i fersiynau gwahanol a gwrandewch arnynt i weld sut y mae arweinyddion a chantorion gwahanol wedi cyflwyno'r darn ar gyflymderau gwahanol iawn!
- Dyma un o weithiau mwyaf enwog Mozart ac mae'n un o'r operâu y perfformir amlaf. Pam rydych yn credu ei bod yn boblogaidd hyd heddiw? Ymchwiliwch i ba gwmnïau opera sy'n perfformio *The Magic Flute* neu *Die Zauberflöte* ar hyn o bryd.

- Pan yn hyderus, ewch ati i ymarfer galw ac ymateb. Gallech gael yr arweinydd yn canu Llais 1 a'r grŵp yn canu Llais 2, neu rannu'r grŵp a chael un rhan yn canu Llais 1 a'r rhan arall yn canu Llais 2. Yna ychwanegwch symudiad o chwifio ar eich gilydd wrth ganu 'Am nawr hwyl fawr!'
- Yn dibynnu ar y fformat (lleisiau uchaf yn unig neu gymysgedd o leisiau) a lefel eich côr/grwˆp canu, efallai y byddwch eisiau archwilio'r adnodd fwy, ychwanegu'r rhannau harmoni is ar gyfer Llais 2 a Llais 3.

Hawlfraint © CânSing Ltd 2019

# Ffarwelgan



## Crynodeb

## *The Magic Flute*

### Act Un

Caiff Tamino ei erlid gan anghenfil ond fe'i hachubir gan Dair Boneddiges, gweision Brenhines y Nos. Maent yn rhoi portread o Pamina, merch Brenhines y Nos, i Tamino, ac mae'n cwympo mewn cariad â hi. Dywed y Boneddiges wrth Tamino fod Pamina wedi cael ei herwgipio gan ŵr drwg, Sarastro, arweinydd y frawdoliaeth. Mae Brenhines y Nos yn galaru am golli ei merch ac mae hi'n erfyn ar Tamino i'w hachub. Bydd Papageno, heliwr adar, yn ei gynorthwyo ar y cyrch hwn, ac mae'r Boneddiges yn rhoi ffliwt hud a set o glychau hud iddynt i'w hamddiffyn. Bydd Tri Bachgen yn dangos y ffordd iddynt.

O fewn cadarnle Sarastro, mae Pamina yn ceisio dianc rhag ei gwarchodwr nwydwyllt, Monostatos. Mae'r Tri Bachgen yn arwain Tamino at y deml Natur, y deml Rheswm a'r deml Doethineb. Mae'n dysgu i feddwl yn wahanol am Sarastro ac mae'n darganfod bod Pamina yn dal yn fyw.

Mae Tamino yn chwarae ei ffliwt hud, sy'n hudo'r anifeiliaid gwyllt. Yn clywed y ffliwt, mae Pamina a Papageno yn ceisio dilyn y sain ond cânt eu dal gan Monostatos a'i wŷr. Mae Papageno yn tynnu eu sylw drwy chwarae ei glychau hud. Mae Sarastro a'i ddilynwyr yn ymgasglu ac eglura Pamina beth sydd wedi digwydd iddi. Mae Monostatos yn cyflwyno ei garcharor diweddaraf, Tamino, gan ddisgwyl gwobr. Mae Sarastro, fodd bynnag, yn gorchymyn iddo gael ei gosbi ac mae'n gwahodd Tamino i ddod yn aelod newydd o'r frawdoliaeth. Wrth i Tamino a Pamina weld ei gilydd am y tro cyntaf, cânt eu gwahanu ar unwaith.

### Act Dau

Mae Sarastro yn argyhoeddi ei ddilynwyr fod Tamino yn ymgeisydd addas ar gyfer y frawdoliaeth ac y bydd ef a Pamina gyda'i gilydd yn sicrhau dyfodol yn rhydd o ddylanwad drwg. Caiff Tamino a Papageno eu mygydu a'u harwain i ffwrdd i ymgymryd â chyfres o brofion, y mae'r cyntaf yn ymwneud ag aros yn dawel.

Mae Monostatos yn ceisio niweidio Pamina ond mae ei mam, Brenhines y Nos, yn ymyrryd. Mae Tamino yn chwarae ei ffliwt ac mae Pamina yn ei glywed, gan ddod o hyd iddo. Mae'r ddau gariad yn ail-uno'n orfoleddus, cyn iddynt gael eu gwahanu eto. Dywedir wrth Papageno na fydd yn cael ymuno â'r frawdoliaeth ond mae'n cael Papagena, ysblennydd ei hun. Mae Pamina a Tamino yn ymgymryd â'r profion olaf o dân a dŵr gyda'i gilydd. Yn cael eu gwarchod gan y ffliwt hud, maent yn llwyddo.

Mae Brenhines y Nos, Monostatos a'r Tair Boneddiges yn trefnu ymosodiad ar Starastro ond cânt eu darganfod a'u gorchfygu. Mae pawb yn ymuno i ganu clodydd Tamino a Pamina, a dathlu buddugoliaeth prydferthwch, doethineb a goleuni.



Lluniau gan Bill Cooper a Robert Workman

Hawlfraint © CânSing Ltd 2019